

YSGOL Y FAENOL Polisi Mynediad

2.0. MYNEDIAD I DDISGYBLION

Yr Adran Addysg yw'r awdurdod mynediad i ysgolion y sir a'r ysgolion dan reolaeth wirfoddol a disgwylir i'r Adran ymgynghori'n flynyddol gyda Llywodraethwyr yr ysgolion hynny er mwyn sicrhau y gwneir trefniadau addas neu cyn newid neu ddiwygio trefniadau. Nid oes gan bennaethiaid yr ysgolion hynny unrhyw ran yn y broses fynediad ac ni fyddant yn trafod a oes lleoedd ar gael. Ceir mynediad drwy ddilyn y polisiâu y cyfeirir atynt isod.

2.1. Polisi Dalgylch

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dalgylch ac fel arfer mae disgyblion yn mynychu ysgol y dalgylch y maent yn byw ynddi a ble bydd yr Awdurdod wedi gwneud darpariaeth o ran gofod, staffio ac adnoddau eraill yn cynnwys cludiant ysgol. Mae gan bob ysgol ddalgylch diffiniedig a chedwir mapiau o'r ffiniau yn y Swyddfa Addysg neu yn yr ysgolion unigol.

2.2 Addysg Feithrin Cyn Ysgol

Mae'r Awdurdod, trwy gyfrwng trefniadau a wneir gyda Phartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant y sir, yn cynnig Addysg Feithrin di-dâl i blant yn ystod y tymor yn dilyn eu penblwydd yn dair oed. Cynnigir y lleoedd gan bartneriaid yn y sectorau gwirfoddol ac Annibynnol sydd wedi eu cofrestru gyda'r Bartneriaeth. Gellir cael rhestr o ddarparwyr trwy gysylltu â Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar ar 01286 678824

2.3 Mynediad i Ysgolion Cynradd

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi o gynnig lle meithrin rhan amser mewn ysgol, i blant, yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, a lle llawn amser mewn dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

Yn yr ychydig feysydd hynny ble nad yw'r Awdurdod yn darparu ar gyfer addysgu plant mewn ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, cynnigir darpariaeth feithrin rhan amser trwy gyllido lleoedd a ddarperir gan y grwpiau gwirfoddol h.y. Mudiad Ysgolion Meithrin a Grwpiau Chwarae Cyn-Ysgol.

Dylid nodi nad yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin yn gwarantu bod y plentyn yn cael lle yn nosbarth derbyn yr ysgol honno. Ble mae dosbarth derbyn mewn unrhyw ysgol wedi ei ordanysgrifio, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob cais (yn cynnwys y plant hynny sydd yn y dosbarth meithrin) yn unol â'r Meini Prawf Mynediad a amlinellir yn 2.7 isod.

Ble cynnigir lle yn y flwyddyn derbyn, mae gan rieni'r dewis o ohirio mynediad eu plentyn i'r ysgol hyd yn nes ymlaen yn yr un flwyddyn ysgol, hyd at y tymor yn dilyn penblwydd eu plentyn yn bump oed.

O dro i dro, gellir ystyried ceisiadau am fynediad i ysgol yn gynharach nag a gynnigir o dan bolisi mynediad y sir. Yr unig eithriadau fydd yr achosion eithriadol hynny a gyfeirir am resymau penodol yng nghyd-destun Deddf Plant 1989 gan :

- (i) Y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r
- (ii) Swyddog Meddygol Sector perthnasol

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am fynediad i'r tair ysgol wirfoddol dan gymorth yng Ngwynedd ond disgwylir iddynt ymgynghori'n flynyddol â'r Awdurdod er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n addas neu cyn eu newid neu eu diwygio. Mae llawlyfr gwybodaeth yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y weithdrefn mynediad a'r weithdrefn apeliadau.

Mae pro – forma ar gyfer gwneud cais ar gael gan yr Ysgolion neu'r Adran Addysg. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw Ebrill 1af 2011. Bydd rhieni'n derbyn llythyr i'w hybysu ar 20fed Mai. Y dyddiad cau ar gyfer apeliadau yw 3ydd Mehefin.

Er mwyn cael mynediad i ysgol gynradd wirfoddol dan gymorth ym Medi 2011, dylid anfon cais ysgrifenedig at yr Ysgol cyn 1 Ebrill, 2011.

2.4 Trosglwyddo o'r ysgol Babanod i'r Ysgol Iau (ac ysgolion blwyddyn mynediad deul).

Mae angen i bob rhiant y mae eu plant ar fin gadael ysgol Babanod, ymgeisio am le mewn ysgol arall cyn 1 Ebrill 2011. Ni cheir cyswllt awtomatig rhwng ysgolion Babanod ac Ysgolion Iau a chaiff ceisiadau eu hystyried yn erbyn y rhif mynediad a'r meini prawf mynediad isod. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r ysgolion hynny sydd â mynediad dros ddwy flynedd megis Ysgol Gynradd Nefyn ac Ysgol Sarn Bach.

2.5 Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Yn ystod Tachwedd 2010, bydd eu hysgol gynradd yn anfon pro-forma at rieni iddynt ddatgan pa ysgol uwchradd y dymunant i'w plentyn fynychu. Mae'r pro forma hefyd ar gael gan yr Adran Addysg. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 17 Rhagfyr, 2010. Hysbysir rhieni trwy lythyr ar 4ydd Chwefror 2011 a'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau yw'r 21ain Chwefror.

Mae'n hanfodol bod rhieni'n gwneud cais cyn 17 Rhagfyr, 2010, gan y bydd lleoedd yn cael eu cynnig i'r rhai sydd wedi gwneud cais cyn y dyddiad cau cyn unrhyw geisiadau hwyr hyd yn oed os yw'r ceisiadau hwyr yn cael eu hanfon o'r dalgylch.

2.6 Cludiant

Pan fo rhiant yn gwneud cais am le mewn ysgol heblaw eu hysgol leol, ac y caiff y cais ei gymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol a disgwylir i rieni wneud y trefniadau angenrheidiol a thalu'r costau.

2.7 Meini Prawf Mynediad

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrhaeddir rhif mynediad yr ysgol. Gall yr Awdurdod roi mynediad i blant yn uwch na'r rhif mynediad cyhyd nad ydyw hynny yn "perylgu darpariaeth addysg effeithlon neu defnyddio adnoddau yn effeithlon".

Mewn achosion ble mae ysgolion wedi gordanysgrifo, defnyddir y meini prawf mynediad canlynol i flaenoriaethu ceisiadau.

Maent yn berthnasol i geisiadau am fynediad i ddosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd, trosglwyddo o ysgolion Babanod i Ysgolion Iau a chais am fynediad i ysgolion uwchradd.

Cânt eu hystyried o ran trefn blaenoriaeth a osodir:

1. Rhoddir blaenoriaeth i blant mewn gofal.
2. Bydd yr Awdurdod yn ystyried achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Awdurdod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Swyddog Meddygol Sector perthnasol ble mae angen rhoi mynediad i blentyn i ysgol neilltuol er eu lles meddygol neu gymdeithasol neu ble mae datganiad o anghenion addysgol arbennig plentyn yn enwi ysgol neilltuol.
3. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ddiffiniedig ysgol. Os yw ceisiadau o'r fath yn uwch na'r rhif safonol, bydd lleoedd yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio meini prawf 4-6 isod.
4. Disgyblion y bydd eu brawd neu eu chwaer yn mynychu'r ysgol (gan roi blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol).
5. Disgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir o fewn dalgylch ysgol uwchradd (gan roi blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol). Nid yw'r meini prawf hyn ond yn berthnasol i geisiadau i ysgol uwchradd.
6. Pellter cyfeiriad y cartref o'r ysgol.

Mae mynediad i ysgolion cynradd yn amodol ar gyfyngu meintiau dosbarth i 30 os yw'r rhif mynediad wedi ei gyrraedd.

Cyfeiriad cartref plentyn at ddiben mynediad yw'r cyfeiriad ble mae ef/hi yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol pan ddaw'r dyddiad cau. Dylid sicrhau y caiff yr Adran Addysg ei hysbysu o unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gellir tynnu'n ôl gynnig o le mewn ysgol os derbynnir gwybodaeth ble mae'r cyfeiriad a roddir yn gyfeiriad ffug.

Bydd y pellteroedd yn cael eu mesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o ddrws ffrynt eich cartref at fynedfa agosaf yr ysgol a defnyddir systemau mapio digidol i fesur.

Mae brawd neu chwaer yn cynnwys hanner brawd neu hanner chwaer, llysfrawd neu llyschwaer, plant wedi eu mabwysiadu a phlant meithrin sy'n byw yn yr un teulu.

Mewn unrhyw achos o efeilliaid neu enedigaethau lluosog eraill, ble na all yr Awdurdod ond cynnig rhai o'r lleoedd sydd eu hangen, gall y rhieni dderbyn y lleoedd a gynigir neu eu cadw'n agored hyd 31 Awst yn y gobaith y gall lleoedd eraill ddod ar gael o blith y rhestr aros.

Oni all yr Awdurdod gynnig lle i blentyn yn yr ysgol oedd eu dewis cyntaf yn ystod y cylch mynediad arferol, cedwir eu henw ar restr aros hyd 31 Awst cyn cychwyn y flwyddyn ysgol berthnasol. Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer rhoi lleoedd yn unol â'r meini prawf uchod ac nid yn ôl y dyddiad y cafodd cais ar gyfer cael lle ei gyflwyno'n wreiddiol.

Ni ellir cynnig lle mewn ysgol i ddisgyblion, yn cynnwys y rheini sy'n byw yn y dalgylch, ac yn ymgeisio am le ymhell ar ôl y dyddiad cau, os yw'r ysgol eisoes yn llawn. O dan amgylchiadau o'r fath, gosodir y plentyn ar y rhestr aros y cyfeirir ati uchod a chaiff y rhieni gyfle i ymgeisio am le mewn ysgol arall. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod ystyried ceisiadau hwyr sy'n cyrraedd cyn y gwneir cynigion mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. salwch)

2.8 Hawl i Apelio

Mewn achos ble nad yw'r Awdurdod yn gallu bodloni dewis rhieni, cynigir lle i'r disgybl mewn ysgol arall. Gall y rhiant dderbyn y cynnig neu roi rhybudd y bwriedir apelio. Mae taflen wybodaeth ynghylch yr apêl ar gael gan yr Awdurdod. Ni ellir apelio os penderfynir gwrthod lle rhan amser mewn dosbarth meithrin.

2.9 Trosglwyddo a symud plant

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i ysgol arall, wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflenni sydd ar gael o'r Ysgolion neu'r Adran Addysg, ond yn unig yn dilyn trafodaeth lawn yn y lle cyntaf gyda'r ddau bennaeth sydd â wnelont â'r achos.

Caiff y cais ei ystyried yng ngoleuni Polisi Mynediad yr Awdurdod a bydd gweithdrefn apeliadau'r Awdurdod y cyfeirir ati yn 2.8 uchod hefyd yn berthnasol i benderfyniadau yn yr adran hon.

Fodd bynnag, cynghorir rhieni yn gryf, i ymatal rhag trosglwyddo disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol i osgoi tarfu ar eu cyrsiau ysgol.

2.10 Disgyblion traws awdurdod lleol

Dylid gwneud ceisiadau o ran plant nad ydynt yn byw yn y sir i gael mynediad i ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod, trwy ddefnyddio'r ffurflenni cais swyddogol sydd ar gael o'r Adran Addysg. Bydd y dyddiadau ar gyfer cyflwyno cais a'r meini prawf y cyfeirir atynt uchod yn berthnasol.

Dylai'r rhieni hynny sy'n byw yn y sir ac sy'n dymuno anfon eu plant i ysgol a gynhelir gan Awdurdod arall, ymgeisio am fynediad i ysgol o'u dewis trwy ddilyn y weithdrefn mynediad a osodwyd gan yr Awdurdod.

Ni wahaniaethir yn erbyn disgyblion o du allan i'r awdurdod lleol o gymharu â disgyblion o Wynedd wrth gymhwyso'r meini prawf mynediad yn adran 2.7

Mabwysiadwyd:

Llofnod:

